GIG CYMRU NHS WALES | Iechyd Cyhoeddus Cymru Public Health Wales	**Rhif cyfeirnod:** ICC26 **Rhif y fersiwn:** 3 **Dyddiad yr adolygiad nesaf:** Rhagfyr 2026

Polisi Rheoli Meddyginiaethau

Cyflwyniad

Nid oes gan Iechyd Cyhoeddus Cymru gyfrifoldeb am roi meddyginiaethau yn uniongyrchol fel arfer, ac felly, mae ond yn ymwneud i raddau cyfyngedig â rheoli meddyginiaethau yn uniongyrchol. O ganlyniad, nid oes angen yr ystod eang o seilweithiau llywodraethu clinigol ar Iechyd Cyhoeddus Cymru i reoli meddyginiaethau fel sydd wedi'u sefydlu o fewn sefydliadau gofal iechyd eraill y GIG. Fodd bynnag, mae rhai sefyllfaoedd gofal clinigol lle mae angen neu y mae'n bosibl bod angen i staff Iechyd Cyhoeddus Cymru gyflenwi neu roi meddyginiaethau i aelodau'r cyhoedd a staff.

Nod

Nod y polisi hwn yw sicrhau bod fframwaith llywodraethu clinigol a chorfforaethol yn bodoli i gefnogi systemau diogel ar gyfer rheoli a thrafod yr holl feddyginiaethau a gyflenwyd neu a roddwyd gan staff Iechyd Cyhoeddus Cymru. Ei nod yw diogelu defnyddwyr gwasanaeth drwy sicrhau y caiff meddyginiaethau eu rheoli drwy ragnodi, rhoi, storio a gwaredu arnynt yn ddiogel a thrwy adrodd ar unrhyw ddigwyddiadau yn ymwneud â meddyginiaethau, a monitro ac adolygu'r digwyddiadau hynny.

Amcanion

Amcanion y polisi yw bod holl weithwyr Iechyd Cyhoeddus Cymru sy'n rhagnodi, yn rhoi, yn archebu, yn cludo, yn storio, yn rheoli ac yn gwaredu meddyginiaethau yn g weithredu yn unol â deddfwriaeth, canllawiau proffesiynol a gweithdrefnau a gofynion Iechyd Cyhoeddus Cymru.

Polisïau, Gweithdrefnau a Dogfennau Rheoli Ysgrifenedig Cysylltiedig

Mae'r holl bolisïau a gweithdrefnau corfforaethol ar gael ar wefan Iechyd Cyhoeddus Cymru
Safonau ar gyfer Gwasanaethau Iechyd Cymru: Safon 15 – Rheoli Meddyginiaethau

Iechyd Cyhoeddus Cymru Brechlynnau (Trin a Storio) Gweithdrefn Rheoli Tymheredd Cyson Gweithdrefn Rheoli Tymheredd 2022

Yr Adran Iechyd a Gofal Cymdeithasol 2020
https://www.gov.uk/government/collections/immunisation-against-infectious-disease-the-green-book#the-green-book

https://assets.publishing.service.gov.uk/government/uploads/system/uploads/attachment_data/file/1034373/Greenbook-cover-Nov21.pdf

Cwmpas

Mae'r polisi meddyginiaethau hwn yn gymwys i'r holl staff sy'n gweithio yn Iechyd Cyhoeddus Cymru sydd ynghlwm â rhagnodi, rhoi, archebu, cludo, storio, rheoli a gwaredu ar feddyginiaethau.

Asesiad o'r Effaith ar Gydraddoldeb ac Iechyd	Cwblhawyd Asesiad o'r Effaith ar Gydraddoldeb, yr Iaith Gymraeg ac Iechyd a gallwch ei weld ar y tudalennau gwe polisi.
Cymeradwywyd gan	Y Pwyllgor Ansawdd, Diogelwch a Gwella
Dyddiad Cymeradwyo	13 Rhagfyr 2023
Dyddiad Adolygu	13 Rhagfyr 2026
Dyddiad Cyhoeddi:	04 Ionawr 2024
Yn atebol i'r Cyfarwyddwr/Cyfarwyddwr Gweithredol	Yr Athro Fu-Meng Khaw, Y Cyfarwyddwr Meddygol Gweithredol Rhiannon Beaumont-Wood, Cyfarwyddwr Gweithredol, Ansawdd, Nyrsio a Gweithwyr Proffesiynol Perthynol i Iechyd
Awduron	Caroline Whittaker Rheolwr Nyrsio, Bydwreigiaeth a Safonau Arweiniol Proffesiynol - Ansawdd, Nyrsio a Gweithwyr Proffesiynol Perthynol i Iechyd Dr Eleri Davies, Dirprwy Gyfarwyddwr Meddygol Swyddfa Cyfarwyddwr Meddygol Iechyd Cyhoeddus Cymru.

Ymwadiad

Os bydd dyddiad adolygu'r ddogfen hon wedi mynd heibio, sicrhewch mai'r fersiwn rydych yn ei defnyddio yw'r un diweddaraf, drwy gysylltu ag awdur y ddogfen neu'r Uned Fusnes y Bwrdd.

Crynodeb o adolygiadau/diwygiadau				
Rhif y fersiwn	**Dyddiad Adolygu**	**Dyddiad Cymeradwyo**	**Dyddiad Cyhoeddi**	**Crynodeb o'r Diwygiadau**
02	2023	13/12/23	04/1/24	Diweddarwyd y cynnwys ac eglurwyd rolau a chyfrifoldebau

Cydnabyddiaeth:

Mae'r fersiwn hon o Bolisi Meddyginiaethau Iechyd Cyhoeddus Cymru yn seiliedig ar Bolisi Meddyginiaethau Bwrdd Iechyd Prifysgol Hywel Dda, rhif 268-fersiwn 15 Gorffennaf 2021 a chaiff ei help ei gydnabod gyda diolch.

Dylid anfon unrhyw gwestiynau neu ymholiadau yn ymwneud â'r Polisi Meddyginiaethau at Caroline Whittaker Rheolwr Nyrsio, Bydwreigiaeth a Safonau Arweiniol Proffesiynol (caroline.whittaker@wales.nhs.uk) ac i Swyddfa'r Cyfarwyddwr Meddygol – PHW.OMD@wales.nhs.uk neu Dianne Burnett, Prif Fferyllydd Cenedlaethol ar gyfer Cyngor ar Feddyginiaethau (dianne.burnett@wales.nhs.uk) dan y pennawd Polisi Meddyginiaethau

1. Cyflwyniad

Mae'n ofynnol i Iechyd Cyhoeddus Cymru sefydlu, dogfennu a chynnal system effeithiol i drin, storio a rhoi meddyginiaethau yn ddiogel yn unol â deddfwriaeth ac arfer gorau. Mae'r Polisi Rheoli Meddyginiaethau'n disgrifio cyfrifoldebau archebu, storio, dosbarthu a rhoi meddyginiaethau a'i nod yw sicrhau'r safonau rheoli meddyginiaethau uchaf a lleihau'r risgiau sy'n gysylltiedig â defnyddio meddyginiaethau[1].

Nid yw'r polisi hwn yn weithdrefn fanwl ar gyfer unrhyw agwedd ar Reoli Meddyginiaethau. Rhaid llunio gweithdrefnau adrannol lle bo angen i ychwanegu at y Polisi hwn, gan ddarparu manylion penodol ar reoli meddyginiaethau sy'n berthnasol i bob gwasanaeth a ddarperir.

2. Rôl a Chyfrifoldebau

Y Prif Weithredwr sy'n gyfrifol ar y cyfan am Reoli Meddyginiaethau yn Iechyd Cyhoeddus Cymru. Cyfrifoldeb y Prif Weithredwr a'r Bwrdd yw darparu adnoddau i sicrhau y caiff meddyginiaethau eu rhagnodi, rhoi, archebu, cludo, rheoli a gwaredu yn ddiogel. Eu cyfrifoldeb nhw yw sicrhau bod y canllawiau'n gyson â'r gofynion cyfreithiol. Dylai arweinwyr y sefydliad roi mecanweithiau ar waith i fonitro cydymffurfiaeth â'r polisi hwn. Lle mae diffyg cydymffurfio, mae'r Bwrdd yn gyfrifol am sicrhau bod camau gweithredu priodol ar waith i liniaru unrhyw risgiau a nodwyd.

Mae'r uchod wedi'i ddirprwyo i'r Cyfarwyddwr Meddygol Gweithredol (yr arweinydd Bwrdd ar gyfer Rheoli Meddyginiaethau), sy'n gyfrifol am sicrhau y caiff y polisi hwn ei roi ar waith a'i adolygu drwy ymgynghori â Gweithwyr Gofal Iechyd Proffesiynol eraill.

Mae Cyfarwyddwyr Gweithredol yn gyfrifol am sicrhau bod systemau ar waith yn yr ardal glinigol/adrannau yn eu cyfarwyddiaethau er mwyn hwyluso'r prosesau yn y Polisi Rheoli Meddyginiaethau a bod y wybodaeth a'r canllawiau yn y polisi hwn ar gael i'r staff a'u bod yn cydymffurfio â nhw.

2.1 Prif Fferyllydd

Drwy Gytundeb Lefel Gwasanaeth gyda Bwrdd Iechyd Caerdydd a'r Fro, y Cyfarwyddwr Fferylliaeth a Rheoli Meddyginiaethau ar gyfer BIP Caerdydd a'r Fro sy'n gyfrifol am gynghori ynghylch rheoli meddyginiaethau effeithiol, ei systemau a'i weithdrefnau.

---

[1] Adroddiad Duthie: Guidelines for the Safe and Secure Handling of Medicines a gyhoeddwyd gan y Gymdeithas Fferyllol Frenhinol (2005)

3. Cyfrifoldebau Gweithredol

3.1 Gweithiwr Gofal Iechyd Proffesiynol Arweiniol

Rhaid i bob Cyfarwyddiaeth/Isadran enwebu Gweithiwr Gofal Iechyd Proffesiynol Arweiniol sydd â chyfrifoldeb proffesiynol am sicrhau bod systemau priodol ar waith ar gyfer y canlynol:

- Darparu system ddiogel, effeithiol ac effeithlon ar gyfer stociau a dosbarthiad meddyginiaeth a gedwir yn safleoedd Iechyd Cyhoeddus Cymru
- Darparu system ar gyfer monitro'r defnydd o feddyginiaeth a chynghori ar ystod briodol o stoc, dyddiadau dirwyn i ben a lefelau dal stoc
- Rhoi cyngor ar amodau storio amgylcheddol priodol
- Rhoi cyngor ar ffyrdd diogel a phriodol o gael gwared ar feddyginiaethau heb eu defnyddio/diangen.
- Rhoi cyngor ar systemau a threfniadau diogel ac effeithiol o roi meddyginiaeth. Mae hyn yn cynnwys rhoi sylwadau a chyngor ar wallau wrth roi meddyginiaeth a damweiniau fu bron â digwydd drwy'r system Adrodd ar Ddigwyddiadau a chyfraddau cadw dogfennau priodol mewn perthynas â'r agweddau hyn
- Rhoi cyngor ar gludo meddyginiaethau a deunydd fferyllol eraill.
- Sicrhau bod mecanweithiau digonol ar waith i fonitro ac adrodd ar y defnydd ar feddyginiaethau drwy Iechyd Cyhoeddus Cymru
- Cofnodi'r broses o roi meddyginiaeth sy'n cynnwys y dos a rhifau batsh
- Cyflenwi meddyginiaethau i ddefnyddwyr gwasanaeth/staff yn unol â Chyfarwyddiadau'r Grŵp Cleifion/polisi lleol
- Cynefino aelodau staff newydd mewn perthynas â'r polisi a'r cod ymarfer hwn ac unrhyw weithdrefnau cefnogol lleol
- Archwilio cydymffurfiaeth â'r polisi hwn a rhoi camau adferol ar waith.

3.2 Dylai gweithwyr gofal iechyd proffesiynol sydd ynghlwm â'r broses rheoli meddyginiaethau wneud y canlynol:

- Darllen a deall y polisi hwn.
- Cydymffurfio â'r Cod Ymarfer hwn a'u Cod Ymarfer proffesiynol (e.e. canllawiau'r GMC/NMC/HCPC);
- Peidio â chyflawni tasgau y tu hwnt i'w cymwysterau, cymhwysedd neu awdurdod
- Sicrhau bod ganddynt y cymwysterau, y cymhwysedd a/neu'r awdurdod gofynnol i gwblhau'r tasgau
- Cynnal diogelwch meddyginiaethau yn eu maes ymarfer
- Rhoi gwybod am unrhyw ddigwyddiadau lle na chydymffurfir â'r polisi hwn.

3.3 Rhagnodwyr meddygol ac anfeddygol

Cyfrifoldeb rhagnodwyr meddygol ac anfeddygol yw ymarfer yn unol â gweithdrefnau a chanllawiau lleol a chydymffurfio â'u Codau Ymarfer proffesiynol priodol.

3.4 Prif Fferyllydd

Bydd gofyn i'r Prif Fferyllydd roi gwybodaeth a chyngor arbenigol ar y gweithdrefnau canlynol:

- Arwain y gwaith o addasu'r templed cyfarwyddyd grŵp cleifion cenedlaethol ar gyfer rhoi'r brechiad rhag y ffliw i'w ddefnyddio'n lleol
- System ddiogel, effeithiol ac effeithlon ar gyfer stociau meddyginiaeth a gedwir yn safleoedd Iechyd Cyhoeddus Cymru
- Systemau diogel, effeithiol ac effeithlon ar gyfer dosbarthiad meddyginiaeth
- Monitro'r defnydd o feddyginiaeth yn briodol a chynghori ar ystod briodol o stoc, dyddiadau dirwyn i ben a lefelau dal stoc
- Amodau storio amgylcheddol priodol.
- Ffyrdd diogel a phriodol o gael gwared ar feddyginiaethau heb eu defnyddio/diangen.
- Rhoi cyngor ar systemau a threfniadau diogel ac effeithiol o roi meddyginiaeth. Mae hyn yn cynnwys rhoi sylwadau a chyngor ar wallau wrth roi meddyginiaeth a damweiniau fu bron â digwydd drwy'r system Adrodd ar Ddigwyddiadau a chyfraddau cadw dogfennau priodol mewn perthynas â'r agweddau hyn.
- Cludo meddyginiaethau a deunydd fferyllol eraill.
- Y mecanweithiau sydd ar waith i fonitro ac adrodd ar y defnydd o feddyginiaethau drwy Iechyd Cyhoeddus Cymru a chynghori ar strategaethau i hyrwyddo rhagnodi cost-effeithiol
- Cyflenwi cyffuriau i ddefnyddwyr gwasanaeth/staff yn unol â Chyfarwyddiadau'r Grŵp Cleifion

4. Rheoli'r gwaith o ragnodi

Dylai unrhyw waith rhagnodi, cyflenwi neu roi meddyginiaethau yn Iechyd Cyhoeddus Cymru gydymffurfio â'r polisïau a chanllawiau a gymeradwywyd gan y Pwyllgor Ansawdd, Diogelwch a Gwella. Bydd y rhain yn cael eu datblygu gan weithgorau sy'n cynnwys uwch aelodau o staff meddygol, staff fferyllol a gofal iechyd proffesiynol a staff rheoli sy'n briodol i'r ystod rhagnodi sy'n cael ei gyflawni.

4.1 Rhagnodi cynhyrchion meddyginiaethol – Pwy all ragnodi?

Dim ond pobl sydd â chymwysterau cyfreithlon all ragnodi cynhyrchion meddyginiaethol. Rhaid i ragnodwyr fod wedi cofrestru â'r corff proffesiynol priodol ar hyn o bryd. Rhaid iddynt gael eu cyflogi a'u hawdurdodi gan Iechyd Cyhoeddus Cymru i ragnodi a meddu ar y wybodaeth, cymhwysedd a phrofiad priodol i ragnodi, fel meddyg, deintydd neu ragnodydd anfeddygol, e.e. Nyrs neu

Fferyllydd Rhagnodi Annibynnol. Gall rhagnodwyr ond rhagnodi o'r rhestr briodol o gynhyrchion meddyginiaethol o fewn eu cwmpas ymarfer. Mae cofrestriad deintyddion yn gofyn iddynt gyfyngu ar eu gwaith rhagnodi i'w meysydd cymhwysedd. Rhaid bod rhagnodwyr anfeddygol wedi cael awdurdodiad wedi'i lofnodi gan eu rheolwr llinell priodol ac yn achos Rhagnodwyr Anfeddygol sy'n nyrs neu'n fydwraig, rhaid cael awdurdodiad wedi'i lofnodi gan y Cyfarwyddwr Nyrsio Gweithredol priodol. Rhaid i Ragnodwyr Anfeddygol fod wedi cofrestru ar gronfa ddata rhagnodwyr anfeddygol o fewn eu maes cymhwysedd.

Mae gan bob rhagnodydd ddyletswydd gofal wrth ragnodi i ddefnyddwyr gwasanaeth, er mwyn sicrhau y caiff meddyginiaethau eu cyhoeddi'n briodol.

Wrth ragnodi i ddefnyddwyr gwasanaeth, dylid dilyn egwyddorion gofal iechyd darbodus.

Dylid cyhoeddi presgripsiynau ar ffurflenni presgripsiwn a gymeradwywyd gan Swyddfa Cyfarwyddwr Meddygol Iechyd Cyhoeddus Cymru.

4.2 Rhoi meddyginiaeth at ddiben achub bywyd mewn argyfwng

Mae Rheoliad 238 o Reoliadau Meddyginiaethau Dynol 2012 yn caniatáu i unrhyw un roi meddyginiaethau presgripsiwn penodol dim ond at ddiben achub bywyd mewn argyfwng heb bresgripsiwn. Mae'r rhain yn cynnwys nalocson, glwcagon a hydrocortison. Gellir rhoi adrenalin 1 mewn 1000 (1mg/mL) drwy bigiad mewngyhyrol er mwyn trin anaffylacsis mewn argyfwng. Dylid dilyn y canllawiau clinigol cyfredol. Gellir dod o hyd i'r rhestr lawn o eithriadau yn: http://www.legislation.gov.uk/uksi/2012/1916/schedule/19/made [2]

4.3 Cyfarwyddiadau Grŵp Cleifion

Cyfarwyddyd ysgrifenedig penodol yw cyfarwyddyd grŵp cleifion i gyflenwi a rhoi, neu ddim ond rhoi meddyginiaeth benodol mewn sefyllfa glinigol ddynodedig. Mae'n gymwys i grwpiau o gleifion nad oes modd eu dynodi'n unigol cyn eu cyflwyno am driniaeth.

Nid yw defnyddio Cyfarwyddyd Grŵp Cleifion yn cynrychioli math o ragnodi. Rhaid peidio â drysu Cyfarwyddyd Grŵp Cleifion gyda chyfarwyddyd ysgrifenedig penodol i gleifion. Mae'r templed ar gyfer Cyfarwyddyd Grŵp Cleifion ar gael yn NICE[3]

4.4 Proffesiynau Gofal Iechyd sy'n gallu gweithredu o dan Gyfarwyddyd Grŵp Cleifion

Cyfeiriwch at yr Asiantaeth Rheoleiddio Meddyginiaethau a Chynhyrchion Gofal Iechyd[4] i gael cyngor ar bwy all ddefnyddio Cyfarwyddyd Grŵp Cleifion.

---

[2] http://www.legislation.gov.uk/uksi/2012/1916/schedule/19/made
[3] Offer ac adnoddau | Cyfarwyddiadau grŵp cleifion | Canllawiau | NICE
[4] Cyfarwyddiadau ar gyfer grwpiau o gleifion: pwy sy'n gallu eu defnyddio - GOV.UK (www.gov.uk)

D.S.: Gall ymarferwyr ond gweithredu fel unigolion penodedig dan Gyfarwyddyd Grŵp Cleifion.

Dylid rhoi'r cyfrifoldeb i rywun uwch ym mhob proffesiwn sicrhau mai dim ond gweithwyr proffesiynol hollol gymwys a hyfforddedig sydd â'r awdurdod i weithredu o fewn y cyfarwyddiadau grŵp cleifion.

4.5 Amgylchiadau y gellir caniatáu Cyfarwyddiadau Grŵp Cleifion oddi tanynt yn Iechyd Cyhoeddus Cymru

Awdurdodi'r broses o gyflenwi neu roi meddyginiaethau gan staff a gyflogir gan Iechyd Cyhoeddus Cymru lle mae Iechyd Cyhoeddus Cymru sy'n uniongyrchol gyfrifol am ofal cleifion neu grŵp o unigolion, er enghraifft imiwneiddiad rhag y ffliw.

4.6 Meini prawf sydd eu hangen i sicrhau cyfarwyddyd grŵp cleifion dilys yn Iechyd Cyhoeddus Cymru

Rhaid i'r meini prawf canlynol fod yn gymwys wrth ddatblygu ac awdurdodi cyfarwyddyd grŵp cleifion yn Iechyd Cyhoeddus Cymru:

- Dylai gael ei lunio gan grŵp amlddisgyblaethol sy'n cynnwys meddyg, fferyllydd a chynrychiolydd o unrhyw grŵp proffesiynol y disgwylir iddo gyflenwi a/neu roi meddyginiaethau o dan y cyfarwyddyd grŵp cleifion
- Rhaid i'r gweithwyr gofal iechyd proffesiynol perthnasol sydd ynghlwm â'r gwaith o baratoi cyfarwyddyd grŵp cleifion ei lofnodi
- Rhaid i'r Cyfarwyddwr Fferylliaeth a Rheoli Meddyginiaethau ym Mwrdd Iechyd Prifysgol Caerdydd a'r Fro (BIPCF) ei lofnodi a dylai unigolyn uwch ym mhob proffesiwn gael ei ddynodi â'r cyfrifoldeb i sicrhau mai dim ond gweithwyr proffesiynol cymwys, gyda chymwysterau a hyfforddiant llawn sy'n gweithredu o fewn y cyfarwyddiadau.
- Rhaid i unigolyn neu unigolion a all gyflenwi a rhoi meddyginiaethau o dan y cyfarwyddyd grŵp cleifion ei lofnodi, ac mae'n rhaid iddo/iddynt fod yn perthyn i un o'r dosbarthiadau o unigolion a nodir uchod
- Bod mewn grym adeg rhoi neu gyflenwi
- Rhaid adolygu'r cyfarwyddyd grŵp cleifion ar gyfer rhoi'r brechiad rhag y ffliw yn flynyddol

5. Cyffuriau y mae Angen Ystyriaeth Arbennig arnynt

5.1 Cyffuriau a reolir

Gellir ond cyflenwi a rhoi cyffuriau a reolir yn unol â gofynion Rheoliadau Camddefnyddio Cyffuriau 2001. Nid oes unrhyw amgylchiadau wedi'u nodi lle y dylid rhoi caniatâd i gyflenwi neu roi cyffur a reolir o fewn Iechyd Cyhoeddus Cymru. O ganlyniad, nid oes Swyddog Atebol am Gyffuriau a Reolir wedi'i benodi gan Iechyd Cyhoeddus Cymru. Bydd y swydd hon yn cael ei hadolygu os bydd y sefyllfa'n newid.

5.2 Meddyginiaethau nad ystyrir eu bod yn briodol i'w cynnwys mewn cyfarwyddyd grŵp cleifion

Ni chaiff meddyginiaethau heb awdurdodiad marchnata'r DU na'r rhai a ddefnyddir y tu allan i delerau'r Crynodeb o Nodweddion Cynnyrch eu hystyried yn briodol i'w cynnwys mewn cyfarwyddyd grŵp cleifion. Mae'r rheoliadau'n nodi'n benodol y gellir ond cynnwys meddyginiaeth os oes ganddi awdurdodiad marchnata cyfredol y DU neu dystysgrif neu gofrestriad homeopathig. Dim ond meddyginiaethau gydag awdurdodiad marchnata a all gael sicrwydd o ddiogelwch, ansawdd ac effeithlonrwydd.

5.3 Amgylchiadau Eithriadol

Dan rai amgylchiadau eithriadol, gellir defnyddio meddyginiaethau gydag awdurdodiad marchnata y tu allan i'r crynodeb o nodweddion cynnyrch e.e. ym maes pediatreg lle nad oes cyffur trwyddedig yn bodoli. Mae hyn yn cynnwys brechlynnau a ddefnyddiwyd yn unol â chyngor y Cydbwyllgor ar Imiwneiddio a Brechu. Dylid dilyn unrhyw un o ganllawiau'r Sefydliad Cenedlaethol dros Ragoriaeth mewn Iechyd a Gofal (NICE) i sicrhau bod modd cyfiawnhau meddyginiaeth a ddefnyddir fel hyn. Rhaid i'r cyfarwyddyd grŵp cleifion nodi'n glir y caiff y cynnyrch ei ddefnyddio y tu allan i delerau'r SmPC, nodi'r rhesymau pam y mae angen ei ddefnyddio ac yn ddelfrydol, cyfeiriad safon aur i gefnogi'r defnydd ohono, e.e. canllawiau'r Cydbwyllgor ar Imiwneiddio a Brechu, NICE neu Lyfr Fformiwlâu Cenedlaethol Prydain Pan fydd y feddyginiaeth ar gyfer plant, bydd angen rhoi sylw penodol i nodi unrhyw gyfyngiadau o ran oedran, maint ac aeddfedrwydd y plentyn a'r angen am gydsyniad.

5.4 Cyffuriau Newydd eu Trwyddedu

Dylai cyffuriau newydd eu trwyddedu sy'n destun trefniadau adrodd arbennig (cyffuriau "triongl du") ond cael eu hystyried dan amgylchiadau eithriadol yn unig. Rhaid dilyn canllawiau arfer clinigol da a rhaid i'r cyfarwyddyd grŵp cleifion nodi'n glir statws y cynnyrch a pham y mae cyffur triongl du wedi'i ddewis. Gellir cynnwys brechlynnau triongl du a ddefnyddir mewn rhaglenni imiwneiddio mewn cyfarwyddiadau grŵp cleifion, ar yr amod eu bod yn unol â'r amserlenni a argymhellir gan y Cydbwyllgor ar Imiwneiddio a Brechu ac a nodir yn y Llyfr Gwyrdd *Imiwneiddio Rhag Clefydau Heintus* a gyhoeddir yn electronig gan yr Adran Iechyd.

Mae symbol y triongl du ▼ yn nodi'r cyfuniadau hynny yn y BNF sy'n cael eu monitro i raddau dwys gan yr Asiantaeth Rheoleiddio Meddyginiaethau a Chynhyrchion Gofal Iechyd (MHRA). Caiff rhagnodwyr eu hannog i fod yn ofalus wrth ragnodi'r cyfuniadau hyn a dylent roi gwybod am adweithiau niweidiol i gyffuriau i'r MHRA https://yellowcard.mhra.gov.uk

5.5 Ymwrthedd Gwrthficrobaidd

Mae ymwrthedd gwrthficrobaidd yn un o'r pryderon mwyaf o ran iechyd y cyhoedd. Felly, rhaid rhoi ystyriaeth ofalus i'r defnydd o wrthfiotigau mewn cyfarwyddyd grŵp cleifion. Gellir ond ystyried eu cynnwys mewn cyfarwyddyd

grŵp cleifion lle bo gwir angen a lle y gellir cyfiawnhau hynny a lle na fydd mesurau i frwydro yn erbyn ymwrthedd yn cael eu cyfaddawdu. Rhaid i ficrobiolegydd ymgynghorol a Fferyllydd Gwrthficrobaidd Ymgynghorol Cymru gyfan fod yn rhan o gyfarwyddyd grŵp cleifion sy'n cynnwys gwrthfiotigau a'i awdurdodi a rhaid iddynt gael eu harchwilio'n rheolaidd.

6. Gofynion ychwanegol Iechyd Cyhoeddus Cymru

6.1 Diogelwch, Storio ac Archwilio

Bydd yn rhaid i'r holl feddyginiaethau i'w cyflenwi yn unol â chyfarwyddyd grŵp cleifion a awdurdodwyd gan Iechyd Cyhoeddus Cymru gael eu cyflenwi yn eu pecynnau gwreiddiol neu becynnau parod a grëwyd gan uned weithgynhyrchu drwyddedig. Rhaid i'r llwybr archwilio priodol fod ar waith. Mae hyn yn gofyn am system ddiogel i gofnodi'r defnydd o feddyginiaeth dan y cyfarwyddyd grŵp cleifion. Bydd hyn yn cynnwys cysoni derbynebau a chyflenwadau o feddyginiaethau ar sail defnyddiwr gwasanaeth/aelod o staff unigol. Rhaid iddi fod yn bosibl nodi pa ddefnyddiwr gwasanaeth/aelod o staff sydd wedi cael pa feddyginiaeth. Yn ogystal, rhaid cofnodi enwau'r gweithwyr iechyd proffesiynol sy'n darparu'r driniaeth.

6.2 Labelu a Thaflenni Gwybodaeth i Gleifion

Mae'n ofyniad cyfreithiol i ddarparu taflen wybodaeth i gleifion y gwneuthurwr bob tro y caiff meddyginiaeth ei chyflenwi. Mae gofynion labelu penodol yr un mor gymwys i feddyginiaethau a gyflenwir dan y cyfarwyddyd grŵp cleifion. Caiff y gofynion labelu ar gyfer meddyginiaethau eu hatgynhyrchu yn *Medicines, Ethics and Practice: The professional guide for pharmacists* y Gymdeithas Fferyllol Frenhinol.

6.3 Prif Gopïau

Bydd copi o bob cyfarwyddyd grŵp cleifion a gaiff ei awdurdodi gan y Cyfarwyddwr Meddygol Gweithredol yn cael ei gadw yn Swyddfa'r Cyfarwyddwr Meddygol.

6.4 Swyddogaeth Cynghori'r Grŵp Cynghori Cleifion

Dylid nodi bod gan Iechyd Cyhoeddus Cymru rôl ddeuol mewn perthynas â chyfarwyddyd grŵp cleifion fel a ganlyn:

i) datblygu a chymeradwyo ystod y cyfarwyddiadau grŵp cleifion i'w defnyddio'n fewnol gan staff Iechyd Cyhoeddus Cymru. Caiff y gweithgarwch hwn ei gwmpasu gan y ddogfen bolisi.

ii) cynhyrchu a chynnal ystod estynedig o ddogfennau templed cyfarwyddyd grŵp cleifion fel dogfennau cynghori i gefnogi Byrddau Iechyd Lleol ac Ymddiriedolaethau Iechyd wrth roi eu rhaglenni imiwneiddio ac ymgyrchoedd rheoli clefydau heintus eraill ar waith. Mae'r dogfennau hyn ond ar gael fel

dogfennau cynghori yn unig a rhaid i Fyrddau Iechyd Lleol ac Ymddiriedolaethau Iechyd unigol eu gwirio a'u hawdurdodi. Nid yw Iechyd Cyhoeddus Cymru yn derbyn unrhyw gyfrifoldeb am ddefnydd eilaidd o'r wybodaeth hon.

6.5 Meddyginiaeth bersonol y staff

Ceir sefyllfaoedd lle bydd angen i staff ddod â'u meddyginiaeth eu hunain neu gadw eu meddyginiaeth mewn amgylchedd gwaith. Os bydd yr aelod o staff yn gweithio mewn ardal y mae gan ddefnyddwyr gwasanaeth fynediad iddi, rhaid storio'r feddyginiaeth yn ddiogel mewn lleoliad nad yw'n caniatáu mynediad i ddefnyddwyr gwasanaeth. Nid yw'r Ymddiriedolaeth yn cymryd unrhyw gyfrifoldeb am ddefnydd nac ansawdd y feddyginiaeth honno a'r aelod o staff ei hun ddylai ei gymryd ym mhob achos, oni fydd ei fywyd dan fygythiad. Os bydd angen achub bywyd e.e. pigiad o adrenalin ar gyfer anaffylacsis, gallai aelod o staff arall roi'r feddyginiaeth dan gyfraith gwlad.

7. Archebu cyffuriau stoc a deunyddiau fferyllol

7.1 Cyfrifoldeb

Y gweithiwr iechyd proffesiynol uchaf ym mhob adran fydd yn gyfrifol am bob agwedd ar reolaeth a diogelwch meddyginiaethau yn eu hardal a rhaid sicrhau y caiff y polisi hwn ei ddilyn. Gellir dirprwyo dyletswyddau ond y gweithiwr iechyd proffesiynol uchaf yn yr adran sy'n parhau i fod yn atebol. Bydd rhestr o weithwyr iechyd proffesiynol arweiniol dynodedig yn cael ei llunio a'i diweddaru gan Swyddfa'r Cyfarwyddwr Meddygol.

Gellir ond cyflenwi neu roi cynhyrchion meddyginiaethol yn unol â'r polisi hwn. Rhaid i weithwyr Iechyd Cyhoeddus Cymru beidio â chymryd cynhyrchion meddyginiaethol a gyflenwir i adrannau am eu defnydd personol hwy, neu ar gyfer defnydd gweithiwr arall, oni y cafodd y cynnyrch ei gyflenwi mewn pecyn cymorth cyntaf er mwyn rhoi cymorth cyntaf i weithiwr.

7.2 Cyffuriau Stoc ac Archebu

Rhaid i'r broses o archebu a chael meddyginiaeth o'r fferyllfa fel meddyginiaeth stoc sicrhau bod rhai dulliau rheoli penodol ar waith i gwmpasu diogelwch y meddyginiaethau (i gynnwys llwybr archwilio wedi'i ddogfennu'n glir) er mwyn atal gorstocio'r ardal, sicrhau diogelwch y staff a defnyddwyr gwasanaeth a dangos yn glir pwy sy'n uniongyrchol gyfrifol am bob cam o'r broses.

Bydd y gweithiwr iechyd proffesiynol uchaf sydd yng ngofal pob adran a'r adran fferyllol sy'n cyflenwi yn cytuno ar restr o feddyginiaethau a ddefnyddir yn rheolaidd neu y mae'n ofynnol cadw stoc ohonynt mewn achos o argyfwng a lefel y stoc. Rhaid i'r adran a'r adran fferylliaeth sy'n cyflenwi gadw copi yr un o'r rhestr hon. Caiff hwn ei adolygu yn rheolaidd (a bob blwyddyn o leiaf). Bydd fferyllydd dynodedig yn cael ei ddarparu fel cyswllt i drafod a mynd i'r afael ag unrhyw faterion neu bryderon parhaus.

Mae gan yr unigolyn mewn gofal gyfrifoldeb am yr holl feddyginiaethau yn yr adran honno. Ni ellir trosglwyddo'r cyfrifoldeb hwn i unrhyw un arall gan ei fod yn cwmpasu elfennau strategol trafod meddyginiaeth yn yr adran sy'n sicrhau bod arferion o ddydd i ddydd yn unol â'r ddeddfwriaeth gyfredol, polisïau/canllawiau lleol a chenedlaethol.

Dylid archebu a chadw digon o stoc er mwyn rhedeg yr adran/clinigau o ddydd i ddydd. Rhaid defnyddio'r cynhyrchion meddyginiaethol gyda'r dyddiad dirwyn i ben cynharaf yn y lle cyntaf.

7.3 Danfon a Chludo

Gall unrhyw un o gyflogeion Iechyd Cyhoeddus Cymru a awdurdodwyd gario cyffuriau er mwyn eu danfon. Ni ddylid byth rhoi meddyginiaethau i gleifion eu danfon.

7.3.1 Cludo Meddyginiaethau o'r adran fferyllol sy'n cyflenwi trwy drafnidiaeth a awdurdodwyd

Cyfrifoldeb yr adran fferyllol fydd trefnu, cydosod a throsglwyddo o'r fferyllfa i'r adran. Bydd y fferyllfa'n tynnu sylw at feddyginiaethau y mae angen eu storio mewn modd arbennig neu eu cadw dan amodau tymheredd arbennig, a hynny er mwyn sicrhau diogelwch a sefydlogrwydd y meddyginiaethau hyd nes iddynt gael eu danfon i'r adran.

Bydd yr holl feddyginiaethau'n cael eu cludo mewn cynwysyddion wedi'u selio, diogel rhag ymyrraeth. Bydd y cynwysyddion yn cael eu cadw'n ddiogel neu dan wyliadwriaeth wrth aros i faes dynodedig yr Ymddiriedolaeth eu casglu neu eu derbyn. Dylid gosod y cynwysyddion a ddanfonir mewn ardal ddynodedig a chael llofnod amdanynt wrth gyrraedd yr adran/clinig. Ar ôl danfon i'r adran/clinig, ymarferydd gofal iechyd cofrestredig priodol sy'n gyfrifol am ddiogelwch y meddyginiaethau fydd yn trefnu bod y cynnwys yn cael ei ddadbacio, ei wirio yn erbyn y nodyn derbyn a'i roi i gadw'n ddiogel cyn gynted â phosibl.

Rhaid i'r unigolyn awdurdodedig sy'n derbyn y cynhyrchion lofnodi'r ddogfennaeth wrth dderbyn ac ymdrin â nhw fel y nodir yn y Polisïau Meddyginiaethau a Gweithdrefn Gweithredu Safonol y Byrddau neu'r Ymddiriedolaethau Iechyd sy'n darparu gwasanaethau fferylliaeth dan Gytundeb Lefel Gwasanaeth neu Weithdrefn Gweithredu Safonol darparwr allanol preifat. Amodau storio wrth gludo

Pryd bynnag y bydd meddyginiaeth yn cael ei chludo o un ardal i'r llall, rhaid ystyried yr amodau storio, y tymheredd a'r lleithder a argymhellir, ac mae'n rhaid i'r dull trosglwyddo ystyried yr amodau storio hyn hefyd. Wrth anfon eitemau gydag amodau tymheredd sensitif iawn, e.e. brechlynnau, mae rhoi gwybod i'r uned sy'n derbyn o ddiwrnod/dyddiad cludo i gynnal y gadwyn oer yn unol â disgrifiad cyfarwyddeb Ymateb Cyflym NPSA (RRR008 Cold Storage) yn enghraifft o arfer da.

7.3.2 Pacio at ddibenion cludo

Rhaid ystyried breuder yr eitem sy'n cael ei dosbarthu wrth gludo unrhyw feddyginiaeth. Rhaid pacio'r eitemau hynny y gwyddom eu bod yn frau, e.e. eitemau sydd eisoes wedi'u pacio mewn gwydr, neu eitemau y gwyddom fod ganddynt berygl COSHH, yn ofalus (efallai y bydd angen deunydd pecynnu ychwanegol o gwmpas y cynhwysydd) er mwyn eu cadw mewn un darn a pheidio â pheri perygl allanol drwy'r broses o gludo. Mae'n rhaid i'r eitem fod mewn un darn a bod modd i glaf ei defnyddio pan fydd yn cyrraedd pen ei thaith.

7.3.3 Cludo dogfennau

Mewn unrhyw drosglwyddiad, rhaid i'r unigolyn sy'n cludo lofnodi pan fydd yn casglu dogfennau. Mae cludwyr yn llofnodi am y bag neu'r blwch cludo allanol ac nid am y cynnwys unigol. Bydd cofnod o'r casgliad yn cael ei gynnal gan Iechyd Cyhoeddus Cymru.

Bydd staff sy'n cymryd rhan wrth gludo meddyginiaethau yn cael eu cadw i isafswm a byddant yn briodol i'r dasg, e.e. cyflogai neu yrrwr dan gontract.

Bydd yr holl staff sy'n cymryd rhan wrth gludo meddyginiaethau yn cael eu hyfforddi i sicrhau eu bod yn deall y gweithdrefnau a'r angen am ddiogelwch.

8. Storio a Rhoi Cynhyrchion Meddyginiaethol

Rhaid i gynhyrchion meddyginiaethol a dderbynnir gan adrannau gael eu gosod yn y cwpwrdd dan glo priodol neu mewn oergell wedi'i chloi (ac eithrio blychau cyffuriau mewn argyfwng).

Dylid dychwelyd meddyginiaethau nad ydynt mewn defnydd mwyach fel y mae'r polisi hwn yn ei nodi. Os gwelir bod yr amodau storio yn amhriodol, rhaid rhoi gwybod i'r unigolyn cyfrifol.

Rhaid i'r adran feddu ar ddigon o gypyrddau storio priodol er mwyn storio meddyginiaeth yn ddiogel mewn ystafell neu ardal ddynodedig. Rhaid cadw pob ardal lle y caiff meddyginiaethau eu storio yn lân, yn drefnus a chan gydymffurfio â'r ddeddfwriaeth ar gyfer storio meddyginiaethau. Mae PSN055 yn nodi'r gofynion cyfredol. Dylid storio meddyginiaethau mewnol ac allanol mewn cypyrddau ar wahân neu, lle nad yw hyn yn bosibl, ar silffoedd ar wahân mewn cwpwrdd. Bydd adweithyddion profi'n cael eu storio mewn cwpwrdd dan glo ar wahân. Bydd diheintyddion yn cael eu storio mewn cwpwrdd dan glo, ar wahân i feddyginiaethau mewnol. Rhaid storio meddyginiaethau nad oes rhaid iddynt gael eu storio mewn oergell rhwng 8°C and 25°C. Rhaid monitro tymheredd yr ystafell gyda thermomedr a'i gofnodi ar y siart dymheredd.

8.1 Oergelloedd meddyginiaeth

Bydd meddyginiaethau gyda label 'Storiwch mewn oergell' yn cael eu storio rhwng 2°C ac 8°C mewn oergell meddyginiaethau wedi'i chloi arbennig. Mae canllawiau wedi'u gosod yn Hysbysiad Diogelwch Cleifion PSN015. Os oes modd, dylai oergelloedd meddyginiaeth gael eu cysylltu â'r cyflenwad trydan drwy wifrau caled er mwyn atal rhywun rhag eu diffodd yn ddamweiniol. Os na fyddant, rhaid gosod rhybudd ar blygiau neu socedi er mwyn atal rhag torri'r

cyflenwad trydan yn ddamweiniol. Caiff defnydd o oergelloedd gyda siartiau cofnodi tymheredd ei ffafrio. Rhaid i dymheredd oergelloedd meddyginiaethau gael ei fonitro a'i gofnodi'n ddyddiol a dylai unigolyn penodol archwilio hyn yn rheolaidd. Rhaid cymryd camau ar unwaith os na fydd y tymheredd o fewn y cyfyngiadau derbyniol yn unol â Iechyd Cyhoeddus Cymru Brechlynnau (Trin a Storio) Gweithdrefn Rheoli Tymheredd Cyson Gweithdrefn Rheoli Tymheredd 2022

Ni ddylid storio eitemau anfeddygol, e.e. llaeth neu fwyd mewn oergell meddyginiaethau ddynodedig.

8.2 Meddyginiaeth frys, pecynnau anaffylacsis

Caiff y meddyginiaethau hyn eu darparu i ardaloedd clinigol er mwyn rhoi triniaeth achub bywyd ar unwaith ac felly, ni ddylid eu storio mewn cypyrddau dan glo, ond eu cadw mewn lleoliad diogel yn yr ardal glinigol er mwyn iddynt fod ar gael yn rhwydd pan fo angen. Rhaid cydbwyso hyn yn erbyn yr angen am ddiogelwch meddyginiaeth, felly dylid eu storio y tu allan i olwg y cyhoedd pryd bynnag y bo'n bosibl.

8.3 Gwarchod yn ddiogel

Yr unigolyn yng ngofal yr adran sy'n gyfrifol am warchod yn ddiogel (cyfrifoldeb parhaus). Gall yr unigolyn gyda chyfrifoldeb parhaus ddirprwyo'r cyfrifoldeb am fod ym meddiant allweddi i'r storfa feddyginiaeth a'u gwarchod. Rhaid storio'r holl allweddi storio meddyginiaeth mewn blwch allwedd wedi'i gloi y tu allan i oriau neu pan y cânt eu gadael heb wyliadwriaeth. Rhaid peidio â gadael i bobl heb awdurdod gael gafael ar feddyginiaethau.

8.4 Colli meddyginiaeth/anghysondeb meddyginiaeth

Bydd pob aelod o'r staff yn cadw ei gofnod ei hun o unrhyw ddigwyddiad a'i gamau gweithredu dilynol. Bydd yr unigolyn mewn gofal yn gwneud ymholiadau cychwynnol i gadarnhau a oes amheuaeth fod achos o ddwyn neu dwyll wedi digwydd.

9. Gweinyddu

Pwrpas yr adran hon yw cadarnhau'r egwyddorion o ran arferion diogel wrth reoli a rhoi meddyginiaethau gan nyrsys cofrestredig, bydwragedd a gweithwyr gofal iechyd proffesiynol eraill. Mae'n gyson â Pholisi Cymru Gyfan ar gyfer Rhoi, Cofnodi, Adolygu, Storio a Gwaredu Meddyginiaethau (MARRS 2015) a https://www.rpharms.com/recognition/setting-professional-standards/safe-and-secure-handling-of-medicines/professional-guidance-on-the-safe-and-secure-handling-of-medicines

Diffiniad o roi: Rhoi meddyginiaeth naill ai drwy ei chyflwyno i'r corff, boed trwy gysylltiad uniongyrchol â'r corff neu beidio (e.e. trwy'r geg neu drwy bigiad) neu

drwy ei gosod yn allanol (e.e. gosod rhwymyn trwythedig); goruchwylio'r claf yn hunan-feddyginiaethu neu'n helpu'r claf i gael meddyginiaeth.

Dim ond pobl sydd â chymwysterau all roi cynhyrchion meddyginiaethol. Rhaid iddynt gael eu cyflogi a'u hawdurdodi gan Iechyd Cyhoeddus Cymru i roi, a meddu ar y wybodaeth a'r profiad priodol i roi, fel meddyg, deintydd neu ymarferydd wedi'i achredu'n briodol e.e. Nyrs. Bydd pob cyflogai sy'n rhoi meddyginiaeth yn atebol yn unigol am ei gamau gweithredu ei hun.

9.1 Safonau Ymarfer ar gyfer rhoi Cynhyrchion Meddyginiaethol

Wrth roi cynhyrchion meddygol, rhaid i weithwyr iechyd proffesiynol weithredu o fewn fframwaith y Cytundeb Lefel Gwasanaeth cyfredol ac yn unol â'u Cod Ymddygiad Proffesiynol, a'r safonau rhoi meddyginiaethau cyfredol. Rhaid iddynt hefyd weithredu yn unol â pholisïau perthnasol Iechyd Cyhoeddus Cymru.

Mae gweithiwr iechyd proffesiynol cofrestredig yn atebol am ei gamau gweithredu a'i hepgoriadau Wrth roi unrhyw feddyginiaeth, neu wrth helpu neu oruchwylio unrhyw broses o hunan-feddyginiaethu, rhaid i'r gweithiwr iechyd proffesiynol ddefnyddio'i farn broffesiynol a chymhwyso'i wybodaeth a'i sgiliau mewn sefyllfa benodol. Caiff ei arwain gan 5 egwyddor Sefydliad Iechyd y Byd (y claf, meddyginiaeth, amser, llwybr, dos IAWN, DIM alergedd)

Gellir ond rhoi cynhyrchion meddyginiaethol i glaf yn yr achosion canlynol yn unig:

- O gael cyfarwyddyd ysgrifenedig penodol i glaf gan feddyg neu ragnodydd anfeddygol priodol;
- Gan rywun sy'n gweithio dan y Cyfarwyddyd Grŵp Cleifion.

Er mwyn rhoi meddyginiaethau, rhaid i'r unigolyn sy'n rhoi gymryd y camau canlynol:

- Cadarnhau hunaniaeth y defnyddiwr gwasanaeth/claf yr aelod o'r staff yn unol â Pholisi Adnabod Cleifion Iechyd Cyhoeddus Cymru.
- Gwirio bod y presgripsiwn wedi'i ysgrifennu'n glir, yn ddiamwys ac yn briodol i'r cyflwr sy'n cael ei drin
- Gwirio nad oes gan y defnyddiwr gwasanaeth/aelod o'r staff alergedd i'r feddyginiaeth sy'n cael ei rhoi.
- Gwirio'r feddyginiaeth i sicrhau y caiff ei rhoi yn unol â'r dos, y llwybr a'r amser cywir.
- Gwirio dyddiad dod i ben y feddyginiaeth i'w rhoi.
- Defnyddio'r cyfle i bwysleisio pwysigrwydd a goblygiadau'r driniaeth a ragnodir a gwella'u dealltwriaeth o effeithiau a sgil-effeithiau a rhoi gwybodaeth ychwanegol berthnasol pan ofynnir amdani neu pan fydd yn ofynnol (Taflen Wybodaeth i Gleifion PIL)
- Gwneud cofnod clir a chywir o lythrennau ar y siart rhoi meddyginiaethau pan fyddwch yn sicr bod yr holl feddyginiaethau a roddwyd wedi'u cymryd/gosod.
- Monitro a gwerthuso a chofnodi effeithiau'r meddyginiaethau a roddwyd a rhoi gwybod i'r ymarferydd meddygol priodol sy'n rhagnodi neu'r fferyllydd

ar unwaith os caiff unrhyw adweithiau niweidiol i'r feddyginiaeth a ragnodwyd eu nodi.
- Rhaid peidio â gadael meddyginiaethau heb wyliadwriaeth a rhaid iddynt gael eu storio'n ddiogel pan na fyddant yn cael eu defnyddio

Rhaid i'r gweithdrefnau nyrsio perthnasol yn rhifyn cyfredol Royal Marsden Manual of Clinical Nursing Procedures (gellir mynd i'r Royal Marsden drwy www.blackwellroyalmarsdenmanual.com) arwain y broses o roi cynhyrchion meddyginiaethol.

9.2 Rhoi meddyginiaeth yn ddiogel

Cyfrifoldeb y Gweithiwr Gofal Iechyd Proffesiynol yw sicrhau cydymffurfiaeth â'r safonau arferion meddyginiaeth a sicrhau ei fod wedi cael yr hyfforddiant ac addysg berthnasol i'w alluogi i roi meddyginiaethau yn ddiogel.

Er mwyn sicrhau y caiff meddyginiaethau eu rhoi yn ddiogel, rhaid i'r sawl sy'n rhoi-

- Wybod am ddefnydd therapiwtig y feddyginiaeth fydd yn cael ei rhoi, ei dos arferol, sgil-effeithiau, rhagofalon, gwrtharwyddion a gofynion monitro. Os na fydd y sawl sy'n rhoi yn ymwybodol o'r wybodaeth hon, rhaid bod modd gallu dod o hyd i'r wybodaeth cyn ei rhoi. (Mae'r ffynonellau'n cynnwys BNF ac SmPC).
- Byddwch yn effro i wallau posibl wrth baratoi.
- Cysylltwch â'r rhagnodydd yn ddi-oed os:-
    - Caiff gwrtharwyddion i'r feddyginiaeth eu nodi
    - Bydd y claf yn datblygu adwaith i'r feddyginiaeth
    - Bydd asesiad o'r defnyddiwr gwasanaeth/aelod o'r staff yn nodi efallai nad yw'r feddyginiaeth yn addas iddynt mwyach.

9.3 Rheoli gwallau

Os rhoddir meddyginiaeth mewn camgymeriad, rhaid i'r unigolyn sy'n rhoi'r feddyginiaeth roi gwybod am y digwyddiad i'r unigolyn cyfrifol er mwyn gallu asesu'r sefyllfa a chadarnhau y caiff unrhyw gamau meddygol priodol eu cymryd. Bydd yr unigolyn priodol yn rhoi gwybod i'r defnyddiwr gwasanaeth/aelod o staff am y digwyddiad Rhaid i'r unigolyn sy'n rhoi'r feddyginiaeth roi gwybod i'w reolwr llinell am y digwyddiad. Rhaid cwblhau cofnod o ddigwyddiad clinigol ar Datix.

10. Rhoi Gwybod am Ddigwyddiadau

Mae'n bwysig y rhoddir gwybod am 'ddamweiniau fu bron â digwydd' a 'digwyddiadau' drwy System Rheoli Pryderon Unwaith i Gymru, Cwmwl Datix, yn unol â pholisi Iechyd Cyhoeddus Cymru:

- Pryd bynnag y caiff digwyddiad ei ddarganfod neu ei amau, dyletswydd gyntaf yr unigolyn sy'n ei ddarganfod yw sicrhau y caiff y defnyddiwr gwasanaeth neu aelod o'r staff ofal prydlon ac yna cychwyn unrhyw gamau adferol.

- Os oes amheuaeth unrhyw bryd yn ystod neu ar ôl rhagnodi, rhoi neu gyflenwi meddyginiaeth, bod digwyddiad wedi cymryd lle a allai arwain at roi cyffur anghywir i glaf, rhaid rhoi gwybod amdano ar unwaith i'r uwch-weithiwr gofal iechyd proffesiynol yng ngofal yr adran neu'r isadran. Dylai'r unigolyn hwn roi gwybod i'r perthynas a dylid ei gofnodi yn y nodiadau clinigol.
- Lle mae cyfarpar ynghlwm yn y digwyddiad, rhaid i'r staff sicrhau y rhoddir y gorau i ddefnyddio'r eitem ar unwaith a rhoddir gwybod am y diffygion i'r gwneuthurwr priodol a'r Asiantaeth Rheoleiddio Meddyginiaethau a Chynhyrchion Gofal Iechyd.
- Fel rheol, dylid rhoi gwybod i feddyg teulu'r claf
- Rhaid rhoi gwybod am y digwyddiad ar Gwmwl Datix cyn gynted â phosibl ar ôl gwneud y digwyddiad yn ddiogel a bod unrhyw gamau adferol angenrheidiol wedi'u cymryd.
- Gellir rhoi gwybod am Adweithiau Niweidiol i Gyffuriau i'r Asiantaeth Rheoleiddio Meddyginiaethau a Chynhyrchion Gofal Iechyd gan y system Cerdyn Melyn Cerdyn Melyn | Gwneud meddyginiaethau a dyfeisiau meddygol yn fwy diogel (mhra.gov.uk)

10.1 Gwaredu a Diffygion

Rhaid cael gwared ar yr holl wastraff yn unol â pholisi Iechyd Cyhoeddus Cymru (a/neu weithdrefnau gwaredu gwastraff clinigol lleol) ar wastraff y mae'n rhaid iddo gytuno â'r Cytundeb Lefel Gwasanaeth amgylcheddol cyfredol. Dylid dosbarthu unrhyw ddeunydd sydd wedi bod mewn cysylltiad â'r claf fel gwastraff clinigol peryglus a'i waredu trwy'r dull safonol ar gyfer gwastraff clinigol. Dylid gwaredu unrhyw eitem sy'n cael ei hystyried yn 'finiog' drwy ei gosod mewn bin 'eitemau miniog hyd yn oed os oes swm bach o feddyginiaeth ar ôl ynddi.

Mae meddyginiaethau nad oes eu hangen mwyach yn cadw eu statws cyfreithiol fel meddyginiaethau hyd nes iddynt gael eu hasesu a'u dinistrio pan gaiff eu statws cyfreithiol ei reoli dan y Rheoliadau Gwastraff. Yn dilyn hynny, bydd angen yr un faint o ddiwydrwydd wrth reoli a thrafod gormod o feddyginiaethau neu feddyginiaethau diangen â rheoli a thrafod meddyginiaethau eraill a ddefnyddir ar hyn o bryd.

Pan fydd amheuaeth o ddiffyg mewn cynnyrch neu rwymyn meddyginiaethol neu os caiff ei ddarganfod, rhaid i'r staff meddygol, nyrsio neu aelodau staff proffesiynol eraill roi gwybod am y diffyg i uwch-fferyllydd yn yr adran fferyllol sy'n cyflenwi, yr uwch-weithiwr iechyd proffesiynol yn yr uned a'r CPPH arweiniol ar unwaith. Rhaid nodi pob deunydd sy'n destun amheuaeth a'i gadw ar wahân mewn man diogel i'w ddadansoddi.

Dylai'r gweithiwr iechyd proffesiynol sy'n rhoi gwybod am ddigwyddiad neu ddiffyg sicrhau ei fod ar gael i drafod y digwyddiad neu'r diffyg gyda'r uwch-fferyllydd ar ddyletswydd. Bydd cyfarwyddiadau'n cael eu cyhoeddi i bawb dan sylw mewn perthynas â'r defnydd pellach o'r cyffur neu'r rhwymyn. Wrth

gwblhau'r ymchwiliad, bydd yr adran fferyllol yn adrodd yn ôl i'r staff dan sylw ar lefel adrannol.

Bydd yr Asiantaeth Rheoleiddio Meddyginiaethau a Chynhyrchion Gofal Iechyd yn casglu ac yn monitro gwybodaeth am bryderon diogelwch dan amheuaeth sy'n cynnwys cynhyrchion gofal iechyd, er enghraifft meddyginiaethau. Pwrpas y cynllun "Cerdyn Melyn" [5] yw rhoi rhybudd cynnar y gall fod angen rhagor o waith ymchwilio i gynnyrch.

10.2 Cysylltiadau iechyd cyhoeddus fferyllol (rhybudd o berygl)

Rhaid i bob isadran sicrhau bod mecanwaith cadarn yn bodoli i dderbyn cysylltiadau iechyd cyhoeddus fferyllol (rhybuddion o berygl) gan Lywodraeth Cymru a'u gweithredu.

10.3 Meddyginiaethau didrwydded

Mae Iechyd Cyhoeddus Cymru yn cydnabod bod angen defnydd deallus weithiau o feddyginiaethau didrwydded neu feddyginiaethau trwyddedig ar gyfer achos didrwydded (defnydd all-drwydded) mewn arferion meddygol. Derbynnir hyn gan Gronfa Risg Cymru a fydd yn indemnio cyfranogwyr yn erbyn digwyddiadau sy'n codi o'r defnyddiau hyn, yn amodol ar bolisi sy'n cwmpasu'r defnydd o gyffuriau dan yr amgylchiadau hynny. Fodd bynnag, mae nodyn technegol Gwasanaethau Cronfa Risg Cymru ar ragnodi cyffuriau didrwydded neu ddefnyddio cyffuriau ar gyfer amodau didrwydded yn cael eu hadolygu. Mae hefyd yn unol â datganiadau polisi gan nifer o sefydliadau proffesiynol, e.e. Y Coleg Brenhinol Pediatreg ac Iechyd Plant.

Mae'r Gymdeithas Gwarchod Meddygol wedi nodi nad yw'r ffaith bod y cyffur wedi'i drwyddedu yn hepgor y defnydd ohono ond byddai'n rhaid i'r rhagnodydd ddangos bod y presgripsiwn yn unol ag arferion meddygol cyfrifol drwy gyfeirio at ymarferwyr eraill, cofnodolion awdurdodol, testunau meddygol neu ffynonellau dibynadwy eraill. Yn ogystal, mae'r Ddeddf Meddyginiaethau a'i Rheoliadau'n darparu eithriadau, sy'n galluogi meddygon i ragnodi meddyginiaethau didrwydded.

Gall y cyfrifoldeb ar weithwyr gofal iechyd proffesiynol wrth ddefnyddio meddyginiaeth ddidrwydded neu feddyginiaeth all-drwydded fod yn fwy na rhagnodi meddyginiaeth drwyddedig o fewn telerau ei drwydded. Mae gan ragnodwyr ddyletswydd i sicrhau eu bod yn ymwybodol o statws cyfreithiol y meddyginiaethau maent yn eu rhagnodi. Dylai rhagnodwyr roi sylw penodol i'r risgiau sy'n gysylltiedig â defnyddio meddyginiaethau didrwydded neu ddefnyddio meddyginiaeth drwyddedig all-drwydded. Gall y risgiau hyn gynnwys: adweithiau niweidiol; ansawdd y cynnyrch; neu wybodaeth neu labelu cynnyrch anghyson, e.e. absenoldeb gwybodaeth ar gyfer rhai meddyginiaethau didrwydded, gwybodaeth mewn iaith dramor ar gyfer mewnforion didrwydded a

[5] Yr Asiantaeth Rheoleiddio Meddyginiaethau a Chynhyrchion Gofal Iechyd Gwybodaeth | Gwneud meddyginiaethau a dyfeisiau meddygol yn fwy diogel (mhra.gov.uk)

dryswch potensial i gleifion neu ofalwyr pan fydd y Daflen Wybodaeth i Gleifion yn anghyson â defnydd all-drwydded meddyginiaeth.

11. Rhagnodi i Aelodau o Staff a Theuluoedd

Ni chaniateir hunan-ragnodi a rhagnodi i aelodau o deulu rhywun. Dylai staff Iechyd Cyhoeddus Cymru gael eu meddyginiaethau presgripsiwn gan eu meddyg teulu ac ni ddylent ofyn i gydweithwyr ragnodi eitemau rheolaidd neu achlysurol iddynt.

12. Hyfforddiant a/neu Gyfathrebu â Staff

Bydd Iechyd Cyhoeddus Cymru yn sicrhau bod gan yr holl staff gofal iechyd proffesiynol sy'n cymryd rhan yn uniongyrchol yn y defnydd o feddyginiaethau y lefelau ymwybyddiaeth a hyfforddiant priodol er mwyn cydymffurfio â'r polisi rheoli meddyginiaethau. Bydd hyfforddiant yn cael ei gyflwyno mewn ffyrdd amrywiol (sesiynau grŵp, hunan-ddysgu trwy'r Fewnrwyd ac ati).

Gellir cyfathrebu'r polisi hwn â'r holl staff drwy:

- Sefydlu Staff
- E ddysgu
- Mewnrwyd
- E-fwletin

13. Monitro ac archwilio

Dylid cynnal archwiliad blynyddol ym mhob isadran gyda chyfrifoldebau gweithredol ar gyfer rhagnodi, cyflenwi neu roi meddyginiaethau i sicrhau y cydymffurfir â'r polisi. Y CPPH arweiniol sy'n gyfrifol am goladu'r archwiliadau a rhoi gwybod i'r Pwyllgor Ansawdd, Diogelwch a Gwella fel y bo'n briodol.

Bydd cydymffurfiaeth â'r polisi hwn yn cael ei harchwilio drwy:

- Rhoi Gwybod am Ddigwyddiadau
- Archwiliadau blynyddol
- Safonau ar gyfer Gwasanaethau Iechyd yng Nghymru (Safon 15)

14. Llywodraethu Gwybodaeth

Rhaid cael llwybr archwilio priodol ar waith ar gyfer unrhyw feddyginiaethau sy'n cael eu rhagnodi, cyflenwi neu roi gan staff Iechyd Cyhoeddus Cymru. Bydd hyn yn cynnwys cysoni derbynebau a chyflenwadau o feddyginiaethau ar sail cleifion unigol.

Mae'r un rheolau'n gymwys i ragnodi a chofnodion cyfarwyddyd grŵp cleifion â'r holl gofnodion cleifion eraill. I oedolion, rhaid cadw pob dogfen am wyth

mlynedd; ac i blant, hyd nes y bydd y plentyn yn 25 oed, neu am wyth mlynedd ar ôl marwolaeth plentyn.

Yn achos rheoli brigiad o achosion, dylid rhoi gwybod i feddyg teulu'r claf am unrhyw driniaeth broffylactig a gyflenwir neu a roddir.